# CYNGOR TREF Y RHYL

Nodiadau'r cyfarfod yn dilyn cyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd
nos Fercher, 21 Ionawr 2026

## PRESENNOL

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr: M. Blackwell, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. L. Connolly, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, J. Kenney, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, D. Simmons a Miss C. L. Williams

Hefyd yn bresennol:

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorwyr: Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, W. Price, Ms R. S. Roberts ac A. J. Rutherford.

## Datgan buddiannau

Gwnaeth y Cynghorwyr A. R. James a Mrs D. L. King ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ym mhenderfyniad rhif 8 isod gan eu bod wedi'u penodi fel negodwyr y Cyngor Tref, ac ni wnaethant gymryd rhan yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater.

## Cofnod o'r penderfyniadau a wnaed

1. Y sedd wag yn ward Cefndy i'w llenwi drwy gyfethol.
2. Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr.
3. Cadarnhawyd y taliadau Atodlen A.
4. Cymeradwywyd y taliadau yn Atodlen B i'w talu.
5. Derbyniwyd yr adroddiad perfformiad buddsoddiadau yn 2025/26, am y cyfnod o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2025.
6. Yn dilyn adolygiad bob tair blynedd Cronfa Bensiwn Clwyd cymeradwywyd gostyngiad yng nghyfraniad y Cyngor Tref fel cyflogwr i 16.5%, gyda chronfa wrth gefn o 5% i ymdrin ag unrhyw amrywiadau.
7. Cymeradwywyd y cais am gymorth ariannol gan Urdd Gobaith Cymru, gyda chyfraniad o £1,150 i bump o blant o ardal y Rhyl fynd i Wersylloedd Haf yr Urdd.
8. Cymeradwywyd llofnodi'r dogfennau cyfreithiol i adleoli swyddfeydd y Cyngor Tref.